

FCA PPI DEADLINE 29 AUGUST 2019

**Mae amser yn brin i
wneud cwyn am bolisi
PPI Mae amser yn brin i
wneud cwyn am bolisi PPI**

**Gweithredwch cyn
iddi fynd yn rhy hwyr**

Beth yw PPI?

Polisi oedd PPI (Yswiriant Gwarchod Taliadau) a oedd yn cael ei werthu gyda chynnyrch credyd fel benthyciadau, morgesi, cardiau credyd, cardiau siopau a chredyd catalogau.

Pwrpas PPI oedd talu ad-daliadau pan oeddech chi ddim yn gallu gwneud hynny eich hun. Er enghraifft, os cawsoch chi eich gwneud yn ddi-waith neu os oeddech chi ddim yn gallu gweithio oherwydd damwain, salwch neu anabledd.

Os na fyddwch chi'n cwyno wrth eich darparwr erbyn 29 Awst 2019, fyddwch chi ddim yn gallu hawlio arian yn ôl am y PPI – felly, rhaid i chi wneud eich penderfyniad gynted ag y bo modd.

Ydy PPI yn berthnasol i mi?

Cafodd miliynau o bolisiau PPI eu gwerthu yn y DU, y rhan fwyaf ohonynt nhw rhwng 1990 a 2010. Os gwnaethoch chi gymryd cynnyrch credyd yn ystod y cyfnod hwn, mae'n ddigon posib bod rhywun wedi gwerthu PPI i chi yr un pryd.

Mae gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol restr gynhwysfawr o ddarparwyr PPI a allai fod wedi gwerthu PPI. Chwiliwch 'FCA PPI' neu ffoniwch 0800 101 88 00.

Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n gallu cwyno am bolisi PPI?

Rydym ni wedi gweld bod polisiau PPI yn aml wedi cael eu cam-werthu. Dyma enghreifftiau o gam-werthu:

- PPI yn cael ei ychwanegu at eich benthyciad neu gynnyrch credyd heb i chi wybod
- Rhywun yn rhoi pwysau arnoch chi i gymryd PPI neu'n dweud bod yn rhaid i chi ei gymryd
- Cael eich cyngori i brynu PPI pan oeddech chi'n ddi-waith neu fod gennych chi gyflwr meddygol oedd yn bodoli'n barod

Efallai bod rhywun wedi cam-werthu PPI i chi drwy ffyrdd eraill hefyd.

Fe allech chi gwyno hefyd os ydych chi'n meddwl bod eich banc neu ddarparwr arall wedi cael **comisiwn mawr** am eich polisi PPI a heb ddweud wrthoch chi pan wnaethoch chi brynu'r polisi.

Mae miliynau o gwynion am y PPI wedi'u gwneud erbyn hyn, ac mae dros £34 biliwn wedi'i hawlio'n ôl.

Os na fyddwch chi'n cwyno wrth eich darparwr erbyn 29 Awst 2019, fyddwch chi ddim yn gallu hawlio arian yn ôl am y PPI – felly, rhaid i chi wneud eich penderfyniad gynted ag y bo modd.

Sut ydw i'n gallu gweld a oedd gen i bolisi PPI?

Os ydych chi wedi cael benthyciad neu gynnyrch credyd ond ddim yn siŵr a oedd gennych chi bolisi PPI, holwch eich darparwr.

Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig adnodd ar-lein i'ch helpu i weld a oedd gennych chi bolisi.

Mae rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr PPI a'u manylion cyswllt ar gael ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. **Ewch i www.fca.org.uk/ppi neu ffonio 0800 101 8800.**

Mae gweld a oedd gennych chi bolisi PPI yn broses syml ac am ddim. Peidiwch â phoeni am y gwaith papur. Yr oll sydd angen i chi ei roi yw eich enw, eich dyddiad geni a chyfeiriadau blaenorol perthnasol.

Sut ydw i'n cwyno am PPI?

Os cafodd polisi PPI ei gam-werthu i chi, mae'n bosib i chi gwyno ac, o bosib, hawlio arian yn ôl.

Os byddwch chi'n penderfynu cwyno, gallwch wneud hyn eich hun, am ddim. Dylech chi gwyno'n uniongyrchol wrth y darparwr a oedd wedi gwerthu'r polisi PPI i chi.

Mae'n bosib y bydd cwmni hawliadau'n cysylltu â chi yn cynnig eich helpu i gwyno am y PPI. Os byddwch chi'n penderfynu defnyddio cwmni, mae'n bur debyg y byddan nhw'n codi arnoch chi am y gwasanaeth hwn.

Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod y broses cwyno am y PPI yn syml, a byddan nhw'n eich helpu drwy gydol y broses.

Dyma sut gallwch chi gysylltu â'ch darparwr i gwyno:

- **Ar-lein** – mae gan lawer o ddarparwyr adnoddau ar-lein ar eu gwefannau i gyflwyno cwynion
- **Ffôn** – cofiwch mai dim ond am hyn a hyn o oriau mae'r llinellau ffôn ar agor
- **Post** – rhowch ddigon o amser i'r gŵyn gyrraedd eich darparwr cyn y dyddiad cau, sef 29 Awst
- **In branch** – cofiwch am amseroedd agor a chau eich cangen leol

Bydd eich darparwr yn edrych ar eich cwyn (efallai y byddan nhw'n gofyn i chi am ragor o wybodaeth felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich manylion cyswllt iddyn nhw).

Rhaid i'ch darparwr ymateb o fewn wyth wythnos i ddweud wrthy'ch chi a ydych chi wedi bod yn llwyddiannus a bod arian yn ddyledus i chi, neu i esbonio pam mae angen rhagor o amser arnyn nhw i edrych mwy ar eich cwyn.

Mae amser yn brin. Os na fyddwch chi'n cwyno wrth eich darparwr erbyn 29 Awst 2019, fyddwch chi ddim yn gallu hawlio arian yn ôl am y PPI.

Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n gallu cwyno am gomisiwn a gafodd y darparwr?

Rhaid i fanciau a darparwyr eraill ystyried cwynion PPI hefyd am y comisiwn a gawson nhw am y polisi PPI.

Mae hyn yn golygu y gallech chi gwyno'n awr os ydych chi'n meddwl bod eich banc neu ddarparwr arall wedi cael comisiwn mawr am eich PPI a heb ddweud wrthoch chi.

Mae'n golygu hefyd y gallech chi gael rhywfaint o'r arian yn ôl hyd yn oed os na chafodd polisi PPI ei gam-werthu i chi. Ac os oeddech chi wedi cwyno o'r blaen am bolisi wedi'i gam-werthu a'r gŵyn honno wedi'i gwrthod, mae'n bosib i chi gyflwyno math newydd o gŵyn.

Ydych chi wedi cwyno'n barod am bolisi PPI wedi'i gam-werthu?

"Nac ydw"

Dylech chi ystyried a oes polisi PPI wedi'i gam-werthu i chi. Bydd eich darparwr yn ystyried y comisiwn a gawson nhw fel rhan o'r gŵyn am gam-werthu, hyd yn oed os na fyddwch chi'n sôn am hyn.

"Ydw"

- **Cafodd eich cwyn ei gwrthod.**

Efallai y gallwch gyflwyno math newydd o gŵyn am y comisiwn a gafodd y banc neu ddarparwr arall.

Cysylltwch â'ch darparwr.

- **Roedd eich cwyn yn llwyddiannus, ac fe gawsoch chi eich arian i gyd yn ôl neu rywfaint ohono**

Fyddwch chi ddim yn cael mwy o arian yn ôl os byddwch chi'n cwyno'n awr am unrhyw gomisiwn a gafwyd o werthu'r un polisi PPI. Y rheswm am hyn yw nad oes dim arian wedi'i golli ar ôl i chi ei hawlio.

- **Roeddech chi wedi cwyno am bolisi PPI ers diwedd 2015**

Dylai eich darparwr fod wedi ysgrifennu atoch chi'n barod i ddweud y bydden nhw'n ystyried y comisiwn a gawson nhw fel rhan o'ch cwyn. Edrychwch ar waith papur eich cwyn neu cysylltwch â'ch darparwr os nad ydych chi'n siŵr.

Beth sy'n digwydd os dydw i ddim yn hapus gyda chanlyniad fy nghwyn?

Os dydych chi ddim yn hapus gyda'r ymateb terfynol a gewch chi gan eich darparwr (neu os dydych chi ddim yn cael unrhyw ymateb o fewn wyth wythnos), gallwch chi gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ar **0800 023 4567**.

Ni yw'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Rydym ni'n rheoleiddio'r sector gwasanaethau ariannol, ac rydym ni yma i'ch gwarchod chi.

Yn y daflen yma, mae gwybodaeth i'ch helpu chi i benderfynu a ddylech chi wneud cwyn am bolisi PPI.

Os na fyddwch chi'n cwyno wrth eich darparwr erbyn 29 Awst 2019, fyddwch chi ddim yn gallu hawlio arian yn ôl am y PPI

Ewch i'n gwefan:

www.fca.org.uk/ppi

Ffoniwch ein llinell gymorth:

0800 101 8800

(Gofynnwch os oes angen gwybodaeth mewn iaith neu fformat arall arnoch chi)

Neu ffôn testun:

18001 01434 372 580